# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2020

## Adroddiad ar Effaith Covid-19 Cam 5

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
73/2020
DYDDIAD CYHOEDDI:
HYDREF 30, 2020



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol: 978-1-80082-347-1

© Hawlfraint y Goron 2020

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2020: Adroddiad ar Effaith Covid-19 Cam 5.

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â'r:
Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru
Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan Fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth, ac eithrio lle nodir fel arall.

## Cynnwys

1. Prif Ganfyddiadau ........ 2
2. Cefndir a Methodoleg ........ 5
3. Capasiti Pan ar Agor ........ 6
4. Effaith ar Staff ........ 10
5. Effaith ar Refeniw ........ 13
6. Perfformiad ers Ailagor – Archebion Presennol ac Ymlaen Llaw ........ 16
7. Parhad a Chymorth Angenrheidiol ........ 29

# 1. Prif Ganfyddiadau

### Dull ac amseriad yr arolwg

1.1 Gwnaethom gynnal 801 o gyfweliadau dros y ffôn gyda pherchnogion a rheolwyr busnesau twristiaeth rhwng 16 a 29 Medi. Gweler Adran 2 am ragor o fanylion ynglŷn â'r dull.

### Archebion ers ailagor

1.2 Mae'r rhan fwyaf o fusnesau (87%) bellach ar agor unwaith eto. Mae 29% o fusnesau sydd ar agor wedi cael mwy o gwsmeriaid ers ailagor nag y byddent fel arfer wedi'u cael yn ystod y cyfnod hwnnw, mae 40% wedi cael yr un lefel, ac mae 31% wedi cael llai. Mae canran y busnesau sy'n adrodd 'mwy o gwsmeriaid na'r arfer' ers ailagor wedi cynyddu'n sylweddol ar gyfer y rhan fwyaf o sectorau ers y don ymchwil flaenorol a adroddodd ddechrau mis Awst. Adroddodd pob sector gynnydd ar wahân i ddarparwyr gweithgareddau.

1.3 Mae'r sectorau hunanddarpar a charafanau a gwersylla wedi perfformio'n dda ers ailagor – yn well na'r arfer ar y cyfan. Mae 37% o weithredwyr llety hunanddarpar wedi cael mwy o gwsmeriaid nag arfer ers ailagor, ac mae 49% wedi cael yr un lefel. Yn yr un modd, mae 38% o feysydd carafanau a gwersylla wedi cael mwy o gwsmeriaid na'r arfer, ac mae 45% wedi cael yr un lefel.

1.4 Mae darparwyr gweithgareddau'n parhau i fod y sector sydd wedi ei daro waethaf. Mae 75% o'r rheini sydd ar agor wedi cael llai o gwsmeriaid na'r arfer. Mae'r sector hwn yn dibynnu'n eithaf cryf ar deithiau ysgol, nad ydyn nhw'n digwydd ar hyn o bryd.

### Lefelau capasiti a'r effaith ar berfformiad

1.5 Mae oddeutu dwy ran o bump (39%) o'r rheini sydd ar agor yn gweithredu i'w capasiti llawn. Mae'r sector hunanddarpar yn wahanol iawn i'r sectorau eraill – mae 59% o fusnesau hunanddarpar sydd ar agor ar agor yn llawn.

1.6 Ymhlith y rheini sy'n gweithredu â llai o gapasiti, mae'r lefelau'n parhau i amrywio'n sylweddol, o gapasiti sydd bron â bod yn llawn i gapasiti o lai na 10%.

1.7 Fel yn yr arolwg blaenorol, mae perfformiad yn cyfateb yn gadarn i'r capasiti pan ar agor. Mae 43% o fusnesau sydd ar agor yn llawn wedi cael mwy o gwsmeriaid nag arfer, mae 46% wedi cael yr un lefel, ac mae 11% wedi cael llai. Mae busnesau sydd ar agor yn llawn wedi gallu manteisio ar alw cadarn mewnol.

1.8 Mae hyn yn cymharu â 20% o fusnesau sydd ar agor yn rhannol â mwy o gwsmeriaid nag arfer, 35% â'r un lefel, a 45% â llai.

**De-orllewin Cymru yn perfformio'n dda; nid yw'r un peth yn wir am Dde-ddwyrain Cymru**

1.9 Mae De-orllewin Cymru wedi gweld galw cryf am wyliau gartref, ac mae ei ddiwydiant wedi gallu elwa ar hyn. Mae 39% o fusnesau sydd ar agor yn Ne-orllewin Cymru wedi cael mwy o gwsmeriaid nag arfer ers ailagor, ac mae 39% wedi cael yr un lefel.

1.10 Nid yw De-ddwyrain Cymru wedi bod mor ffodus. Mae 18% o fusnesau sydd ar agor wedi cael mwy o gwsmeriaid nag arfer ac mae 32% wedi cael yr un lefel. Fodd bynnag, mae 50% wedi cael llai.

**Symud tuag at gyfnod o ansicrwydd unwaith eto**

1.11 Ar adeg y cyfweliadau, roedd un o bob chwech (17%) o fusnesau wedi derbyn mwy o archebion nag arfer ar gyfer mis Hydref a mis Tachwedd, roedd gan 40% yr un lefel, ond roedd gan 43% lai o archebion.

1.12 Fodd bynnag, symudodd sawl ardal yng Nghymru a ledled y DU yn ôl i gyfnod o gyfyngiadau symud yn ystod y gwaith maes ar gyfer y don ymchwil hon. Cyflwynwyd y cyfyngiadau ar gyfer Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Chasnewydd bron hanner ffordd trwy'r gwaith maes.

1.13 Dywedodd 34% o fusnesau a holwyd cyn y cyfyngiadau symud yn y pedair sir hyn eu bod wedi derbyn llai o archebion nag arfer ar gyfer mis Hydref a mis Tachwedd. Fodd bynnag, codwyd hyn i 53% o fusnesau a holwyd ar ôl cyflwyno’r cyfyngiadau symud hyn. Cafodd effaith hefyd ar fusnesau nad oeddent yn destun cyfyngiadau symud ar yr adeg honno, gyda mwy o fusnesau yn nodi llai o archebion yng Ngogledd Cymru, Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru. Gwelwyd y newid mwyaf yn Ne-orllewin Cymru. Roedd un rhan o bedwar o'r busnesau a holwyd cyn y cyfyngiadau symud hyn wedi cael llai o archebion ymlaen llaw nag arfer, o gymharu â 50% o’r busnesau a holwyd ar ôl y cyfyngiadau symud hyn.

1.14 Yn sgil hyn ac adroddiadau ehangach ers hynny, mae'n debygol bod archebion ymlaen llaw wedi gostwng ers i'r data hyn gael eu casglu, oherwydd bod mwy o gyfyngiadau symud lleol wedi cael eu cyflwyno ledled Cymru a'r DU.

**Diswyddiadau'n aros yn eithaf isel am y tro**

1.15 Wrth i'r cynllun ffyrlo ddod i ben ar ddiwedd mis Hydref, gan gael ei olynu gan gynllun cyflog atodol, mae swyddi yn niwydiant twristiaeth Cymru yn goroesi yn bennaf hyd yn hyn. Mae 4% o fusnesau wedi gwneud diswyddiadau. Ymhlith y sampl o 801 o fusnesau, mae 44 aelod o staff parhaol amser llawn wedi'u diswyddo hyd yn hyn, a 21 aelod o staff parhaol rhan-amser.

**Colled mewn refeniw wedi sefydlogi i rai**

1.16 Mae'r golled ganolrifol fesul busnes o achos yr argyfwng yn dueddol o fod tua phen uchaf yr amrediad rhwng £10,000 a £25,000 – yr un canlyniad ag a gafwyd yn yr arolwg blaenorol. Roedd 13% o fusnesau wedi nodi colledion o rhwng £100,000 ac £1 miliwn a mwy.

1.17 Mae rhai busnesau hunanddarpar wedi llwyddo hyd yn oed i adennill peth o'u colledion trwy gael cyfnod gwych ar ôl ailagor, ond mae eraill yn parhau i'w chael hi'n anodd.

1.18 Mae canolrif y golled a gofnodwyd o ganlyniad i'r argyfwng yw rhwng 41% a 50% o'r refeniw arferol ar gyfer y flwyddyn gyfan. Mae hyn hefyd yr un canlyniad ag yn yr arolwg blaenorol. Er hynny, nododd un o bob pump o gwmnïau golledion o dros 70% o'u refeniw arferol.

**Rhagolwg ar gyfer goroesi**

1.19 Mae’r rhan fwyaf o fusnesau (73%) yn disgwyl goroesi yn hirach na'r chwe mis nesaf. Dim ond 5% o weithredwyr sy’n dweud nad ydyn nhw'n disgwyl goroesi’r chwe mis nesaf.

1.20 Ymhlith y busnesau sy’n disgwyl goroesi yn llai na chwe mis, mae’r rhan fwyaf wedi ateb bod angen cyllid ychwanegol gwerth rhwng £10,001 a £25,000 er mwyn goroesi. Er hynny, roedd angen rhwng £50,001 ac £1 miliwn[1] ar oddeutu 14% o fusnesau.

[1] Mae maint y sampl ar gyfer y cwestiwn hwn yn fach, felly mae angen bod yn bwyllog wrth ddadansoddi'r canfyddiadau hyn.

## 2. Cefndir a Methodoleg

### Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

2.1 Cynlluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ar sut mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar gyfnodau allweddol yn ystod y flwyddyn.

2.2 Yr arolwg hwn yw'r bumed don i ymchwilio i effaith yr argyfwng COVID-19 ar y diwydiant twristiaeth.

### Sut y cynhaliwyd yr arolwg?


2.3 Rydym wedi cynnal 801 o gyfweliadau dros y ffôn. Mae hyn yn golygu bod canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i ±3.5%. Mae'r sampl yn adlewyrchu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac fe'i dangosir isod yn ôl sector a rhanbarth:

| Sector / Rhanbarth | Gogledd | Canolbarth | De-orllewin | De-ddwyrain | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Llety â gwasanaeth | 93 | 46 | 71 | 61 | **271** |
| Hunanddarpar | 85 | 45 | 100 | 34 | **264** |
| Meysydd carafanau / gwersylla | 39 | 14 | 22 | 8 | **83** |
| Hostelau | 6 | 7 | 8 | 5 | **26** |
| Atyniadau | 25 | 13 | 18 | 22 | **78** |
| Gweithredwyr gweithgareddau | 17 | 8 | 12 | 5 | **42** |
| Bwytai / tafarndai / caffis | 8 | 8 | 11 | 10 | **37** |
| **Cyfanswm** | **273** | **141** | **242** | **145** | **801** |

2.4 Mae 73% o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytai / tafarndai / caffis, atyniadau a gweithredwyr gweithgareddau, lle nad yw graddio'n berthnasol. Cynhaliwyd pob cyfweliad dros y ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnesau rhwng 16 a 29 Medi.

## 3. Capasiti Pan ar Agor

## Busnesau sydd ar agor / ar gau




### Mae'r rhan fwyaf ar agor


3.1 Mae'r rhan fwyaf o fusnesau twristiaeth (87%) bellach ar agor unwaith eto. Mae llety lle'r oedd mwy o bellter yn bodoli eisoes rhwng y gwesteion cyn y pandemig – hunanddarpar a meysydd carafanau a gwersylla i ryw raddau – yn fwy tebygol o fod ar agor na hostelau a llety â gwasanaeth, lle mae gweithredwyr wedi wynebu heriau i gynnal mesurau cadw pellter cymdeithasol ar gyfer eu gwesteion.

3.2 Mae mwy o atyniadau (78%) bellach ar agor o gymharu â'r adeg y cynhaliwyd yr arolwg blaenorol ar ddiwedd mis Gorffennaf (53%). Mae rhai atyniadau'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol ac mae sylwadau'n dangos nad yw'r pwysau i ailagor yr un fath nag ar gyfer busnesau masnachol. Ar adegau, mae aelodau staff wedi'u hadleoli i swyddi eraill o fewn eu hawdurdod lleol.

*"Mae'r safle yn cael ei rhedeg gan y cyngor, felly pan oedd ar gau yn ystod y cyfyngiadau symud, roedd modd dod o hyd i swyddi eraill ar gyfer ei staff."*
Atyniad, y De-ddwyrain

*"Rydym dan ofalaeth y cyngor, felly cafodd pawb waith arall yn ystod y cyfyngiadau symud. Penderfynom gau tan fis Chwefror oherwydd bod y rhan fwyaf o'n helw dros y gaeaf yn dod o grwpiau ysgol a digwyddiadau Calan Gaeaf/Nadolig, sydd ddim yn hyfyw ar hyn o bryd."*
Atyniad, y De-ddwyrain

## Rhesymau dros aros ar gau




*Gofynnnwyd C2 i fusnesau sydd ar gau ar hyn o bryd*

### Cadw’r feirws o'm cartref


3.3 Ymhlith y busnesau sydd ar gau, nid oes gan sawl un gynlluniau i ailagor ar hyn o bryd. Mae sylwadau agored yn dangos mai’r prif reswm yw eisiau aros nes bod y pandemig drosodd. Yn aml, gwelwyd hyn lle mae’r gweithredwyr yn oedrannus ac nid ydyn nhw am gael cwsmeriaid o ardaloedd eraill yn dod â'r feirws i'w heiddo, a allai fod yn gartref iddynt hefyd.

3.4 Nid yw twristiaeth yn brif incwm i'r gweithredwyr hyn bob amser, ac felly nid ydynt o dan bwysau i ailagor. Mae cadw'n ddiogel yn cyfrif am fwy na budd incwm ychwanegol.

> *“Rwyf wedi penderfynu cau fy musnes ar ôl 15 mlynedd ac rwy’n aros nes bod y holl bethau ’ma am COVID-19 yn mynd i ffwrdd, fydd ddim am sbel, mae'n debyg. Fodd bynnag, gan nad fy mhrif ffynhonnell incwm ydyw, rwyf wedi ymdopi gyda'r sefyllfa."*
> Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain

> *"Rwyf yn gwarchod ar hyn o bryd, felly roedd rhaid cau fy mwthyn oherwydd byddai croesawu ymwelwyr yn peri gormod o risg i'm hiechyd. Dydw i ddim yn bwriadu agor yn fuan chwaith oherwydd mae’n debyg bod ail don ar y ffordd."*
> Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain

## Capasiti gweithredu




*Busnesau sydd ar agor yw'r sampl ar gyfer y canlyniadau uchod*

**Mae lefelau capasiti yn parhau i amrywio'n sylweddol**

3.5 Mae oddeutu dwy ran o bump (39%) o'r rhai sydd ar agor yn gweithredu i'w capasiti llawn. Mae'r sector hunanddarpar yn wahanol iawn i'r sectorau eraill – mae 59% o fusnesau hunanddarpar sydd ar agor ar agor yn llawn. Mae'r gwesteion mewn unedau hunangynhwysol, er mai rheswm cyffredin gan hyd yn oed lety hunanddarpar dros beidio â gweithredu i'w capasiti llawn yw'r amser ychwanegol sydd ei angen ar gyfer glanhau rhwng gwesteion.

*"Rwyf wedi cau un bwthyn o bob tri gan nad yw'n bosibl glanhau pob un ohonynt mewn pryd cyn derbyn gwesteion newydd."*
Llety hunanddarpar, y De-orllewin


3.6 Mae gweithredwyr gweithgareddau yn parhau i wynebu llawer o heriau. Mae 30% yn gweithredu ar gapasiti o lai na 30%.

3.7 Mae bwytai, tafarndai a chaffis hefyd yn wynebu heriau o ran capasiti. Mae oddeutu hanner (49%) o'r rheini yn gweithredu ar gapasiti o lai na 60%. Mae'r tabl isod yn dangos y capasiti gweithredu fesul sector:

| Capasiti gweithredu presennol | Sector | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Llety â gwasanaeth** | **Hunanddarpar** | **Meysydd carafanau / gwersylla** | **Hostelau** | **Atyniadau** | **Darparwyr gweithgareddau** | **Bwytai / tafarndai / caffis** |
| Ar agor yn llawn | 36% | 59% | 34% | 24% | 28% | 14% | - |
| 90 – 99% | 10% | 9% | 11% | - | - | 3% | 5% |
| 80 – 89% | 14% | 5% | 18% | 14% | 7% | 25% | 11% |
| 70 – 79% | 14% | 9% | 7% | 14% | 10% | 11% | 11% |
| 60 – 69% | 8% | 6% | 9% | - | 3% | 6% | 24% |
| 50 – 59% | 8% | 7% | 11% | 19% | 25% | 8% | 14% |
| 40 – 49% | 5% | 3% | 4% | 14% | 7% | 3% | 16% |
| 30 – 39% | 1% | - | 4% | - | 8% | - | 19% |
| 20 – 29% | 2% | 1% | 2% | 5% | 7% | 8% | - |
| 10 – 19% | 1% | - | - | - | 5% | 8% | - |
| Llai na 10% | - | 2% | - | 10% | 2% | 14% | - |
| *Sampl:* | *226* | *234* | *82* | *21* | *61* | *36* | *37* |

# 4. Effaith ar Staff

## Effaith ar staff yn gyffredinol




*Gofynnwyd C5 i weithredwyr sy'n cyflogi staff*

**Canlyniadau tebyg i'r tro diwethaf**

4.1 Prif effaith COVID-19 ar staff yn y diwydiant yw cael eu gosod ar ffyrlo o hyd, ond mae diswyddiadau'n aros yn eithaf isel am y tro.

4.2 Ymhlith y sampl o 801 o fusnesau, mae 44 aelod o staff parhaol amser llawn wedi'u diswyddo hyd yn hyn, a 21 aelod o staff parhaol rhan-amser.

4.3 Mae cyfran y busnesau (sy'n cyflogi staff) sy'n gosod staff ar ffyrlo yn ôl rhanbarth fel a ganlyn:

- Gogledd Cymru – 74%
- Canolbarth Cymru – 53%
- De-orllewin Cymru – 52%
- De-ddwyrain Cymru – 65%

4.4 Mae cyfran y busnesau (sy'n cyflogi staff) sy'n gosod staff ar ffyrlo yn ôl sector fel a ganlyn:

- Atyniadau – 70%
- Llety â gwasanaeth – 69%
- Darparwyr gweithgareddau – 67%
- Meysydd carafanau / gwersylla – 63%
- Bwytai / tafarndai / caffis – 50%

- Hunanddarpar – 47%
- Hostelau – 42%

| Cam gweithredu | Cyfanswm y nifer a gyflogir | **Nifer cyfartalog y staff sydd ar ffyrlo / sy'n gweithio llai o oriau / sydd wedi'u diswyddo** *(Sampl: pob busnes sy'n cyflogi staff)* |
|---|---|---|
| **Staff sydd ar ffyrlo ar hyn o bryd** | 1 | 0.4 |
| | 2 | 1.1 |
| | 3 | 1.1 |
| | 4 | 1.2 |
| | 5 | 1.8 |
| | 6 – 10 | 1.8 |
| | 11 – 50 | 3.8 |
| | Dros 50 | 28.7 |
| | Ffigur cyffredinol | 2.8 |
| **Staff sy'n gweithio llai o oriau** | Ffigur cyffredinol | 0.4 |
| **Staff sydd wedi'u diswyddo** | Ffigur cyffredinol | 0.2 |

*Nid yw'r cyfartaleddau ar gyfer staff sy'n gweithio llai o oriau ac sydd wedi'u diswyddo yn cael eu rhannu yn ôl maint busnes oherwydd maint sampl isel pan rennir*

### Gostyngiad yn nifer y staff sydd ar ffyrlo ar hyn o bryd

4.5 Ar gyfartaledd, mae 2.8 o bobl ym mhob busnes twristiaeth sy'n cyflogi staff ar ffyrlo ar hyn o bryd. Mae hyn llawer yn is nag yn ystod y don ddiwethaf, pan oedd yn 7.5 ar gyfartaledd.

4.6 Mae'r rhaniadau yn ôl rhanbarth ar gyfer gosod ar ffyrlo fel a ganlyn:

| Rhanbarth | **Nifer cyfartalog y staff sydd ar ffyrlo** *(Sampl: pob busnes sy'n cyflogi staff)* |
|---|---|
| Gogledd Cymru | 1.7 |
| Canolbarth Cymru | 1.2 |
| De-orllewin Cymru | 1.8 |

| | |
|---|---|
| De-ddwyrain Cymru | 6.3 |

4.7 Mae sampl y De-ddwyrain yn cynnwys sawl busnes mawr sy'n cyflogi nifer fawr o staff.

5. **Effaith ar Refeniw**

## Colledion refeniw

| *C16 "… faint o refeniw mae eich busnes wedi'i golli hyd yn hyn o ganlyniad i'r argyfwng COVID-19?"* | |
|---|---|
| Heb golli unrhyw refeniw | 5% |
| Hyd at £1,000 | 1% |
| £1,001 – £2,500 | 1% |
| £2,501 – £5,000 | 7% |
| £5,001 – £10,000 | 16% |
| £10,001 – £25,000 | 25% |
| £25,001 – £50,000 | 23% |
| £50,001 – £100,000 | 10% |
| £100,001 – £250,000 | 4% |
| £250,001 – £500,000 | 6% |
| £500,001 – £1,000,000 | 1% |
| Mwy na £1,000,000 | 1% |
| *Sampl* | *379* |

*Mae'r canlyniadau uchod yn peidio â chynnwys y rhai nad ydyn nhw'n gwybod neu mae'n well ganddyn nhw beidio ag ateb y cwestiwn sensitif hwn*

**Mae colledion refeniw wedi sefydlogi i rai ers y don ddiwethaf**

5.1 Mae'r golled ganolrifol fesul busnes yn dueddol o fod tua phen uchaf yr amrediad rhwng £10,000 a £25,000 – yr un canlyniad ag a gafwyd yn yr arolwg blaenorol. Roedd 13% o fusnesau wedi nodi colledion o rhwng £100,000 ac £1 miliwn a mwy.

5.2 Mae'n debyg bod rhai busnesau wedi llwydo i 'atal y dirywiad' dros yr haf a heb weld eu colledion eleni'n cynyddu mwy. Mae rhai busnesau hunanddarpar hyd yn oed yn dweud eu bod yn adennill peth o'r golled flaenorol, wrth i eraill barhau i'w gweld hi'n anodd.

*"Gan ein bod wedi bod mor brysur, rydym yn dechrau adennill peth o'r arian."*
Llety hunanddarpar, Canolbarth

*"Mae'n costau i gyd yn dechrau ailgydio bellach megis gwyliau talu morgais, toriadau mewn talu yswiriant ar gyfer cerbydau, yn ogystal â'r cynllun ffyrlo'n dod i ben. Ni fyddaf yn gallu parhau pan mae'r costau hyn yn dod yn ôl i rym."*

Atyniad, y Gogledd

5.3 Nid yw'r meintiau sampl ar gyfer y rhan fwyaf o sectorau yn ddigon mawr i'w cymharu mewn modd dibynadwy oherwydd bod cymaint nad ydynt yn gallu ateb y cwestiwn neu'n amharod gwneud hyn. Beth bynnag, ni cheir unrhyw awgrym bod gwahaniaethau sylweddol yn ôl sectorau.

5.4 Mae'r golled ganolrifol fesul busnes yn gwahaniaethu yn ôl maint y busnes. Mae'r tabl isod yn dangos y golled ganolrifol fras fesul busnes yn ôl nifer y gweithwyr. Mae'r canlyniadau hyn yr un peth ag yn yr arolwg diwethaf:

| Nifer y staff cyflogedig parhaol | Ystod colled ganolrifol fras mewn refeniw hyd yn hyn |
|---|---|
| Dim un | £10,000 hyd at £25,000 |
| 1 – 5 | £25,000 hyd at £50,000 |
| 6 – 10 | £100,000 hyd at £250,000 |
| 11 – 50 | £250,000 hyd at £500,000 |
| Mwy na 50 | £1,000,000 |

5.5 Mae'r tabl isod yn dangos cyfran y refeniw blynyddol arferol a gollwyd gan y busnesau a ddywedodd eu bod wedi colli refeniw. Mae oddeutu un o bump wedi colli 70% o'u refeniw blynyddol.

| ***C17 "A pha gyfran fras o'ch refeniw blynyddol arferol y mae'r golled honno'n ei chynrychioli hyd yn hyn?"*** | |
|---|---|
| Colled o <3% | 1% |
| Colled rhwng 3% a 5% | - |
| Colled rhwng 6% a 10% | 1% |
| Colled rhwng 11% a 15% | - |
| Colled rhwng 16% a 20% | 1% |
| Colled rhwng 21% a 30% | 14% |
| Colled rhwng 31% a 40% | 19% |
| Colled rhwng 41% a 50% | 21% |
| Colled rhwng 51% a 60% | 15% |
| Colled rhwng 61% a 70% | 7% |

| *C17 “A pha gyfran fras o'ch refeniw blynyddol arferol y mae'r golled honno'n ei chynrychioli hyd yn hyn?”* | |
|---|---|
| Colled rhwng 71% a 80% | 11% |
| Colled o dros 80% | 10% |

Sampl: 322

**Colledion wedi sefydlogi i rai**


5.6 Mae canolrif y golled a gofnodwyd o ganlyniad i'r argyfwng yw rhwng 41% a 50% o'r refeniw arferol ar gyfer y flwyddyn gyfan. Dyma'r un canlyniad ag a gafwyd yn yr arolwg blaenorol.

5.7 Yn yr un modd â C16, nid yw'r meintiau sampl ar gyfer y rhan fwyaf o sectorau yn ddigon mawr i gymharu’r canlyniadau mewn modd dibynadwy, ar wahân i'r sectorau llety â gwasanaeth a hunanddarpar. Mae'r golled ganolrifol mewn trosiant blynyddol ar gyfer busnesau hunanddarpar yn yr amrediad o rhwng 31% a 40%, ond mae rhwng 51% a 60% ar gyfer busnesau llety â gwasanaeth. Mae’r sylwadau’n dangos bod rhai busnesau hunanddarpar wedi bod yn adennill incwm o archebion blaenorol a gafodd ei ohirio/canslo.

*“Mae pob un sydd yma yn bobl oedd wedi gohirio eu harchebion yn ystod y cyfyngiadau symud.”*
Llety hunanddarpar, Gogledd

# 6. Perfformiad ers Ailagor – Archebion Presennol ac Ymlaen Llaw

## Perfformiad presennol




*Gofynnwyd C18 i fusnesau sydd ar agor*

**Ceir amrywiaeth sylweddol fesul sector**


6.1 Mae 29% o fusnesau sydd ar agor wedi cael mwy o gwsmeriaid ers ailagor nag y byddent fel arfer wedi'u cael yn ystod yr adeg honno, ac mae 40% wedi cael yr un lefel. Mae pob un o'r sectorau llety wedi perfformio'n well ar y cyfan na'r sectorau nad ydynt yn cynnig llety. Mae'r sectorau sy'n fwy 'cynwysedig' – hunanddarpar a meysydd carafanau – wedi gwneud yn arbennig o dda ers ailagor.

*"Mae pobl yn daer i gael mynd am seibiant felly rydym wedi bod yn brysurach nag erioed ers ailagor."*
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

6.2 Nid yw darparwyr gweithgareddau wedi gwneud yn dda o gwbl ers ailagor. Mae rhai'n ddibynnol iawn ar deithiau ysgol, nad ydynt yn digwydd ar hyn o bryd.


*"Yn ôl y gyfraith, nid oes hawl gan unrhyw ysgol i drefnu ymweliadau felly rydym wedi colli pob un o'n cwsmeriaid arferol."*
Darparwr gweithgareddau, y Canolbarth

*"Rydym yn ddibynnol ar deithiau ysgol ac nid oes hawl gennym dderbyn teithiau ysgol nes 2021 o leiaf. O ganlyniad, rydym wedi colli'r rhan fwyaf o'n harchebion ar gyfer yr hydref a'r gaeaf."*
Darparwr gweithgareddau, y Canolbarth




6.3 Fel yn yr arolwg blaenorol, mae lefel yr archebion o’i chymharu â'r hyn sy’n arferol yn cyfateb yn gadarn i’r capasiti pan ar agor. Mae busnesau sydd ar agor yn llawn wedi perfformio'n arbennig o dda ers ailagor oherwydd iddynt fanteisio ar y galw mawr. Nid yw busnesau sydd ar agor yn rhannol wedi cael y cyfle i fanteisio ar y galw hwn yn yr un ffordd.

## Gwahaniaeth ers y don ymchwil flaenorol





6.4 Mae canran y busnesau sy'n nodi eu bod wedi derbyn 'mwy o gwsmeriaid na’r arfer' ers ailagor wedi cynyddu'n sylweddol ar gyfer y rhan fwyaf o sectorau ers y don ymchwil flaenorol, a gynhaliwyd rhwng 27 Gorffennaf a 6 Awst. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer y

sector llety hunanddarpar, gydag 13% yn nodi mwy o gwsmeriaid nag arfer yn y don ddiwethaf o'i gymharu â 37% yn y don bresennol.

6.5 Mae ambell sylw gan y busnesau'n awgrymu eu bod wedi gweld cynnydd yn y galw am wyliau gartref o ganlyniad i'r rheolau cwarantin ynglŷn â theithio tramor. Fodd bynnag, gall y newid yn y canlyniadau fod o achos i'r ffaith bod y don ymchwil hon yn cynnwys cyfnod yr haf yn ei gyfanrwydd, ond roedd y don ddiwethaf ond yn cynnwys lefelau cwsmeriaid hyd at 6 Awst fan bellaf.

6.6 Darparwyr gweithgareddau yw'r unig sector nad yw wedi nodi mwy o gwsmeriaid nag arfer o'i gymharu â'r don ymchwil flaenorol. Gallai hyn ymwneud â llai o allu i fodloni rheolau cadw pellter cymdeithasol, gyda rhai yn dweud bod y rheolau hyn wedi effeithio'n arbennig arnynt. Mae peidio â gallu derbyn teithiau ysgol, a fyddai wedi dechrau ym mis Medi fel arfer, hefyd yn debygol o fod wedi cael effaith sylweddol.

### Gwahaniaethau yn ôl rhanbarth




6.7 Mae De-orllewin Cymru wedi perfformio'n dda ers ailagor gyda theithwyr yn ceisio cymryd gwyliau gartref.

*“Mae Sir Benfro erioed wedi bod mor brysur gyda thwristiaid.”*
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

*“Ar hyn o bryd, rydym ni'n gorfod gwrthod pobl – gallwn ni lenwi'r gwesty ddwywaith.”*
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin


*"Mae cwsmeriaid yn dweud wrthym eu bod yn mynd tramor fel arfer ond yn dod i Gymru yn lle gan nad oes dim dewis arall ganddyn nhw.Rydym yn derbyn adolygiadau gwych – maen nhw wrth eu boddau yma.”*
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

*“Ers ailagor yng nghanol mis Gorffennaf, rydym wedi bod yn brysur gyda phobl oedd wedi bwriadu eistedd ar y traeth yn Sbaen neu Ffrainc neu Bortiwgal.Mae pawb yn dewis 'gwyliau gartref' yn lle."*
Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

6.8 Fodd bynnag, mae twristiaeth yn Ne-ddwyrain Cymru yn ei gweld hi'n anodd. Mae Caerdydd yn aml yn cynnal digwyddiadau mawr, ac nid yw'r digwyddiadau'n cael eu cynnal.

*“Dwi'n meddwl bod yr ardaloedd gwledig a'r traethau yn gwneud yn eithaf da ar hyn o bryd ond bod yr ardaloedd dinesig yn ei gweld hi'n anodd iawn."*
Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

## Archebu ymlaen llaw ar gyfer mis Hydref a mis Tachwedd




*Y sampl ar gyfer C19 yw busnesau sydd ar agor / yn bwriadu ailagor ac sy'n derbyn archebion*


### Darlun llai cadarnhaol ar gyfer y dyfodol

6.9 Ar adeg y cyfweliadau, roedd 17% o fusnesau oedd ar agor neu oedd yn bwriadu agor â mwy o archebion nag arfer ar gyfer mis Hydref a mis Tachwedd, roedd gan 40% yr un lefel, ac roedd gan 43% lai o archebion. Mae'r sectorau hunanddarpar a meysydd carafanau i'w gweld yn sefydlog, ond nid yw'r rhagolygon i'w gweld yn addawol ar gyfer llety â gwasanaeth oni bai fod archebion yn dod i law ar y funud olaf.

6.10 Fodd bynnag, mae nifer o gyfyngiadau symud lleol yng Nghymru a ledled y DU wedi'u chyflwyno yn ystod adeg y gwaith maes ar gyfer y don ymchwil hon. Er i rai o’r rhain gael eu cyflwyno ar ddechrau’r gwaith maes, ac eraill ar ddiwedd y gwaith maes, cafodd y cyfyngiadau ar gyfer Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Chasnewydd eu cyflwyno bron i hanner ffordd trwy'r gwaith maes. Cynhaliwyd 53% o'r cyfweliadau cyn i'r cyfyngiadau symud hyn ddechrau a 47% ar ôl hynny.

6.11 Dywedodd 34% o'r busnesau a holwyd cyn i'r cyfyngiadau symud hyn fod ganddynt lai o archebion nag arfer ar gyfer mis Hydref a mis Tachwedd. Fodd bynnag, gwnaeth hyn gynyddu i 53% o'r busnesau a holwyd yn dilyn y cyfyngiadau symud hyn. Cafodd effaith hefyd ar y busnesau nad oeddent yn destun cyfyngiadau symud ar yr adeg honno, gyda mwy o fusnesau yn nodi llai o archebion yng Ngogledd Cymru, Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru. Yn sgil hyn ac adroddiadau ehangach ers hynny, mae'n debygol bod archebion ymlaen llaw wedi gostwng ers i'r data hyn gael eu casglu, oherwydd bod mwy o gyfyngiadau symud lleol wedi cael eu cyflwyno ledled Cymru a'r DU.

*"Dros y dyddiau diwethaf, mae pedwar cwsmer o ranbarthau yn Ne Cymru wedi canslo'u harchebion gyda ni oherwydd iddynt fod o dan gyfyngiadau symud lleol."*
Parc carafanau, y Gogledd





6.12 Fel sy'n wir am berfformiad ers ailagor, mae'r lefelau archebion wrth symud ymlaen yn cyfateb yn gadarn i'r capasiti pan ar agor.

*“Rydym wedi cael llawer o ymholiadau'n ddiweddar ond nid yw'n bosibl i ni ateb y galw."*
Bwyty, y Canolbarth


*“Rydyn ni wedi derbyn llawer o ymholiadau ar gyfer mis Hydref ond oherwydd ein cyfyngiadau ar niferoedd, byddwn yn croesawu llai o bobl o'i gymharu â’r llynedd.”*
Parc carafanau, y Gogledd

**Gwahaniaethau yn ôl rhanbarth**




6.13 Mae'r darlun cymharol fesul rhanbarth yn debyg i'r perfformiad ers ailagor: mae rhagolygon ar eu gorau yn Ne-orllewin Cymru ond ar eu gwaethaf yn Ne-ddwyrain Cymru.

*"Mae gennym archebion hyd at ddiwedd mis Hydref yn hytrach na'r un neu ddau arferol ar gyfer mis Hydref."*
Llety hunanddarpar, y De-orllewin





6.14 Fel y nodwyd eisoes, cafodd y cyfyngiadau ar gyfer Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Chasnewydd effaith hefyd ar fusnesau nad oeddent yn destun cyfyngiadau symud ar yr adeg honno. Mewn gwirionedd, mae'n ymddangos bod De-orllewin Cymru wedi ei daro waethaf. Dywedodd un rhan o bedwar o'r busnesau a holwyd cyn y cyfyngiadau symud hyn eu bod wedi cael llai o archebion nag arfer ar gyfer mis Hydref a mis Tachwedd, o'i gymharu â'r 50% o fusnesau a holwyd ar ôl y cyfyngiadau symud hyn.

6.15 Fodd bynnag, roedd y gyfran uchaf o fusnesau oedd yn nodi llai o gwsmeriaid nag arfer ar ôl y cyfyngiadau symud hyn o hyd ar ei huchaf yn Ne-ddwyrain Cymru (78%).

## Graddfa'r cynnydd mewn archebion ar adeg yr arolwg

**C20 (OS MWY) "Faint mwy o archebion [ym mis Hydref a Tachwedd] sydd gennych o gymharu ag arferol?"**




*Gofynnwyd C20 i fusnesau sydd â mwy o archebion nag arfer*


**Cyfnod prysur i rai os ydynt yn dal i allu cyflawni archebion**

6.16 Ar adeg y cyfweliadau, dywedodd rhai gweithredwyr eu bod yn gweld estyniad i’w cyfnod prysur arferol oherwydd galw mawr am wyliau gartref.

> *"Nid ydym ar agor fel arfer ym mis Tachwedd, ond rydym newydd gael caniatâd i wneud hynny eleni, felly rydym yn disgwyl derbyn archebion llawn yn debyg i'r rhai ym mis Hydref."*
> Hostel, Gogledd

6.17 Wrth i gyfyngiadau symud gael eu cyflwyno mewn rhagor o ardaloedd yng Nghymru a'r DU, mae'n annhebygol y bydd mis Hydref a mis Tachwedd yn cael eu cyflawni i'r un graddau. Mae dadansoddiad cynharach o effaith mwy o gyfyngiadau symud yn awgrymu y gallai’r canlyniadau uchod fod yn wahanol iawn bellach.

## Graddfa'r gostyngiad mewn archebion




*Gofynnwyd C21 i fusnesau sydd ar agor sy'n derbyn llai o gwsmeriaid nag arfer*

**Mae rhai busnesau yn derbyn llawer llai o gwsmeriaid nag arfer**


6.18 Ar adeg y cyfweliadau, roedd gan 37% o fusnesau a oedd yn gweld gostyngiad mewn archebion o'u cymharu â'r hyn sy'n arferol ar gyfer mis Hydref a mis Tachwedd lai na hanner y lefel o archebion sydd ganddynt fel arfer. Ymhlith yr holl fusnesau a oedd yn derbyn archebion ar gyfer mis Hydref a mis Tachwedd, roedd gan tuag un o bob chwech (16%) lai na hanner y lefel o archebion sydd ganddynt fel arfer.

6.19 Darparwyr gweithgareddau yw'r sector sy'n ei chael yn fwyaf anodd – roedd gan 44% o'r rheini a oedd yn derbyn archebion ar gyfer mis Hydref a mis Tachwedd lai na hanner y lefel sydd ganddynt fel arfer. Mae hyn yn gysylltiedig â chapasiti gweithredu ac, mewn rhai achosion, dibyniaeth ar deithiau ysgol.

*“Mae'r busnes yn teimlo ychydig yn segur ar hyn o bryd ac rwyf wedi gorfod cymryd ail swydd er mwyn cadw pethau i fynd.”*
Darparwr gweithgareddau, y Gogledd

*“Rydym wedi colli 90% o'n hincwm."*
Darparwr gweithgareddau, y De-orllewin

## Canslo archebion




*Y sampl ar gyfer C22 yw busnesau sydd ar agor / yn bwriadu ailagor ac sy'n cymryd archebion*

### Amseroedd cythryblus i rai


6.20 Mae natur esblygol y pandemig a'r cyfyngiadau a gyflwynwyd ar fyr rybudd yn golygu bod rhai gweithredwyr yn cael lefelau uchel neu ganolig o archebion yn cael eu canslo – naill ai wrth iddynt ganslo archebion eu cwsmeriaid, neu wrth i'w cwsmeriaid ganslo eu harchebion gyda nhw.

6.21 Mae'r gyfran uchaf o fusnesau sy'n gweld 'lefel uchel' o archebion yn cael eu canslo yn Ne-ddwyrain Cymru (28%). Nid yw'r rhanbarthau eraill yn wahanol iawn i'w gilydd. Ar adeg y cyfweliadau, dywedodd 15% o fusnesau eu bod yn cael 'lefel uchel' o archebion yn cael eu canslo. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn wahanol ar gyfer busnesau a gafodd eu cyfweld cyn y cyfyngiadau symud ar gyfer Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Chasnewydd, a'r busnesau a gafodd eu cyfweld ar ôl hynny. O'r rheini a holwyd cyn y cyfyngiadau symud hyn, roedd 10% wedi nodi 'lefel uchel' o archebion yn cael eu canslo, ond roedd 30% yn dweud nad oedd neb wedi canslo archeb. O'r rheini a holwyd ar ôl y cyfyngiadau symud hyn, roedd canran uwch (21%) yn nodi lefel uwch o archebion yn cael eu canslo ac roedd canran is (17%) yn nodi nad oedd neb wedi canslo archeb.

6.22 Unwaith eto, mae'n ymddangos bod De-orllewin Cymru wedi ei daro waethaf gan y cyfyngiadau symud hyn. Dim ond 4% o'r busnesau o'r ardal hon a gafodd eu cyfweld cyn y cyfyngiadau symud hyn a nododd lefel uchel o archebion yn cael eu canslo, o'i gymharu â 32% ar ôl hynny. Roedd effaith y cyfyngiadau symud hyn ar fusnesau yn Ne-ddwyrain Cymru'n llai llym, gyda 29% yn nodi lefel uchel o archebion yn cael eu canslo cyn y cyfyngiadau symud a 28% wedi hynny, er y bu gostyngiad yn y rhai a nododd nad oedd 'neb wedi canslo', o 29% i 18%.

6.23 Nododd Gogledd Cymru a Chanolbarth Cymru lefel uwch o archebion yn cael eu canslo hefyd yn dilyn y cyfyngiadau symud hyn, gyda 'lefelau uchel' o archebion yn cael eu canslo yng Ngogledd Cymru, lle roedd y nifer yn cynyddu o 11% i 16%, ac yng Nghanolbarth Cymru, lle roedd cynnydd o 4% i 13%.

## Rhesymau dros ganslo archebion




*Gofynnwyd C23 i weithredwyr sy'n profi lefel uchel neu ganolig o archebion yn cael eu canslo*

### Cyfyngiadau symud lleol

6.24 Caerffili oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i ailgyflwyno cyfyngiadau symud ar 8 Medi. Mae nifer o ardaloedd eraill yng Nghymru wedi gwneud yr un peth ers hynny. Dyma'r prif reswm dros y lefelau uchel neu ganolig o ganslo archebion.

*"Mae ychydig archebion sydd gen i newydd gael eu canslo oherwydd y cyfyngiadau symud yng Nghaerffili a Rhondda Cynon Taf. Rwyf yn disgwyl mwy maes o law, gan fod pobl yn bryderus."*
Llety â gwasanaeth, y Canolbarth


### Beth yw'r rheolau yng Nghymru?

6.25 Mae cyfyngiadau symud lleol newydd mewn rhai ardaloedd o Gymru wedi ychwanegu at ddryswch rhai ymwelwyr o Loegr mewn cyfnod pan nad oedd y gwahaniaethau rhwng y rheolau yng Nghymru a Lloegr yn cael eu deall yn dda.

*"Mae nifer o'n cwsmeriaid yn dod o Loegr ac mae fel petai nad ydynt byth yn ymwybodol o'r cyfyngiadau yng Nghymru. Rhaid iddynt chwilio'n weithgar er mwyn dod o hyd i wybodaeth ynglŷn â'r canllawiau yng Nghymru felly byddai'n well petai modd rhoi gwybod iddynt yn well rhywsut."*
Llety hunanddarpar, Gogledd

*"Mae'n aneglur a oes hawl gan bobl i ymweld â ni oherwydd bod llawer o ddryswch ynglŷn â theithio yng Nghymru."*
Llety hunanddarpar, Gogledd

# 7. Parhad a Chymorth Angenrheidiol




### Rhagolwg ar gyfer goroesi

7.1 Mae’r rhan fwyaf o fusnesau (73%) a holwyd yn disgwyl goroesi yn hirach na'r chwe mis nesaf. Nid yw rhai gweithredwyr yn dibynnu ar dwristiaeth fel eu prif ffynhonnell incwm, ac i'r rheini sydd yn ddibynnol arni, roedd ailagor mewn pryd ar gyfer tymor yr haf wedi'u hachub.

### Gwahaniaethau yn ôl sector

| Hyd disgwyliedig goroesiad busnes | Sector | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llety â gwasanaeth | Hunanddarpar | Meysydd carafanau / gwersylla | Hostelau | Atyniadau | Darparwyr gweithgareddau | Bwytai / tafarndai / caffis |
| Hyd at 6 mis | 6% | 3% | - | 11% | 9% | 7% | 5% |
| Mwy na 6 mis | 66% | 82% | 86% | 73% | 64% | 64% | 62% |
| Mae'n dibynnu | 10% | 5% | - | 4% | 3% | 10% | 11% |
| Ddim yn gwybod | 18% | 10% | 14% | 12% | 24% | 19% | 22% |
| *Sampl:* | *271* | *264* | *83* | *26* | *78* | *42* | *37* |

7.2 Mae'r sector hunanddarpar wedi perfformio'n dda iawn ers ailagor ac felly fe ddylai'r rhan fwyaf o fusnesau oroesi'r chwe mis nesaf.

7.3 Mae meysydd carafanau a gwersylla yn gyfarwydd â naill ai bod ar gau neu dderbyn llai o gwsmeriaid dros y gaeaf beth bynnag.

*"Rydym yn cau ym mis Hydref felly rydym yn gyfarwydd â bod ar gau yn ystod y gaeaf. Gobeithiwn am well y flwyddyn nesaf."*
Parc carafanau, y De-ddwyrain


7.4 Mae'r rhagolwg ar gyfer y sectorau eraill yn llai sicr. Ar gyfer pob sector y tu allan i'r sectorau hunanddarpar a meysydd carafanau a gwersylla, dywedodd tua thraean na fyddant yn goroesi'r chwe mis nesaf, mae'n dibynnu, neu nad oeddent yn gwybod pa mor hir y gallant oroesi.

*“Teimlaf fod gennym ychydig fisoedd yn unig yn weddill os ydym yn gorfod wynebu cyfyngiadau symud eraill.Rhaid cadw fel y mae er mwyn goroesi dros y misoedd nesaf."*
Tafarn, De-orllewin

*“Rydyn ni’n dibynnu ar archebion ysgol yr adeg hon o'r flwyddyn ac y maen nhw i gyd wedi canslo, felly gallen ni oroesi tan y Nadolig ond ar ôl hynny byddai’n rhaid i ni gau dros dro.”*
Hostel, Gogledd

## Angen cyllid ychwanegol

**C25 "Faint o gyllid ychwanegol ydych chi'n meddwl sydd angen i'ch busnes...goroesi'r chwe mis nesaf??"**





*Gofynnwyd C25 i fusnesau a oedd yn disgwyl goroesi'n hirach na'r chwe mis nesaf. Dim ond 30% o'r rheini a holwyd y cwestiwn iddynt wedi cynnig ateb.*

**Nid oes angen symiau aruthrol ar gyfer nifer**

7.5 Nid yw'r symiau o arian sy'n cael eu trafod er mwyn helpu'r busnesau mwyaf bregus i oroesi dros y chwe mis nesaf yn symiau aruthrol ar y cyfan. Mae rhai'n dweud nad oes angen cymorth arnynt, ac o blith y rheiny sydd angen cymorth, yr ateb mwyaf cyffredin yw rhwng £10,000 a £25,000. Er hynny, roedd tua naw o'r 66 cwmni a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn dweud bod arnynt angen rhwng £50,001 a £1 miliwn.

7.6 Maint sampl fach sydd i gwestiwn 25, ac felly rhaid bod yn bwyllog wrth ddadansoddi'r canfyddiadau hyn.


## Ffynonellau eraill i'w harchwilio




**Gellir canfod peth o'r arian sydd ei angen o ffynonellau eraill**

7.7 Er bod gweithredwyr bob amser yn debygol o ffafrio grantiau oherwydd nad oes yn rhaid eu talu'n ôl ac nad ydynt yn cyflwyno unrhyw risg iddynt eu hunain, dywed rhai y gellir dod o hyd i gyfran o'r cyllid ychwanegol sy'n ofynnol trwy ffynonellau eraill fel banciau neu gyllid personol.  Ar gyfartaledd, gellid dod o hyd i oddeutu 6% o'r swm sydd ei angen mewn man arall.

## Cymorth anariannol




*Gofynnwyd i'r ymatebwyr enwi hyd at dri math o gymorth yn nhrefn eu pwysigrwydd.Rydym wedi creu sgôr ar gyfer pob un ffactor gan ddyfarnu tri phwynt ar gyfer pob safle cyntaf, dau bwynt ar gyfer pob ail safle ac un pwynt ar gyfer pob trydydd safle.Nid yw cyfanswm y sgorau unigol yn golygu unrhyw beth ar eu pen eu hunain – yn hytrach sut maent yn cymharu â'i gilydd yn gymharol.Mae'r siart yn dangos pwysigrwydd cymharol y mathau o gymorth.*

### Marchnata ac arfer gorau COVID-19 yw'r ddau fath o gymorth fwyaf poblogaidd

7.8 Pan ofynnwyd iddynt flaenoriaethu cymorth anariannol posibl, mae pob sector a rhanbarth yn rhoi marchnata ac arfer gorau COVID-19 o blith y ddau uchaf.

*“Rydym am greu ein gwefan ein hun, felly byddai'n ddefnyddiol derbyn cymorth ar farchnata."*
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

*“Byddai croeso ar gyfer cymorth ar-lein a marchnata.Mae'n wahanol iawn i'r adeg pan ddechreuais yn y busnes 50 o flynyddoedd yn ôl."*
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

### Rhai'n dangos eu gwerthfawrogiad o'r cymorth sydd eisoes wedi'i roi

7.9 Mae rhai gweithredwyr yn canmol Croeso Cymru / Llywodraeth Cymru neu eu hawdurdod lleol am y cymorth maent wedi'i dderbyn eisoes.

*"Rydym wedi syfrdanu gyda'r holl gymorth yr ydym wedi'i derbyn gan y cyngor lleol a Croeso Cymru."*
Parc carafanau, y Canolbarth

*"Rwy'n credu bod y cynllun grantiau i fusnesau bach gan Lywodraeth Cymru yn hynod ddefnyddiol a chadarnhaol gan ei fod nid yn unig yn pontio'r bwlch ac yn caniatâi inni oroesi COVID-19, ond fe wnaeth hefyd ganiatáu imi gwblhau gwaith cynnal a chadw yng nghynt. Roedd hyn yn ei gwneud yn fwy hyblyg i mi oherwydd fel arall byddai angen i mi fod ar agor yn ystod y gaeaf er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw."*

Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain

*"Mae'n ymddangos bod Croeso Cymru wir yn poeni am ein busnesau ac mae'n braf eu bod nhw'n gwneud yr ymdrech. Mae'r cylchlythyr yn ddefnyddiol iawn."*

Llety hunanddarpar, Gogledd

# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2020: Effaith Covid-19 Cam 5

Sector Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich math o fusnes orau?

- Llety â gwasanaeth ❑
- Llety hunan arlwyo ❑
- Maes carafannau / pebyll ❑
- Hostel ❑
- Amgueddfa ❑
- Atyniad ❑
- Cynal gweithgaredd ❑
- Bwyty / tafarn / caffi ❑

Q1 Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio sefyllfa bresennol eich busnes / atyniad orau?

- Rydym ar agor ❑
- Rydym ar gau - ond yn bwriadu agor yn ddiweddarach eleni ❑
- Rydym ar gau - ac nid ydym yn bwriadu agor (eto) eleni ❑

Q2 *Os nad yw ar agor*

Beth yw'r prif reswm nad ydych yn agor ar hyn o bryd?

*Annog os oes angen*

- Mae cyfyngiadau Covid-19 yn atal fy sector rhag bod ar agor ❑
- Ni fyddai'n ymarferol yn ariannol i agor dan y ganllawiau pellhau cymdeithasol presennol ❑
- Prinder staff / salwch ❑
- Rydym wedi cau'r busnes dros dro ❑
- Rydym wedi cau'r busnes yn barhaol ❑
- Arall ❑

Nodwch reswm arall ______________________

Q3 *Os ar agor*

Yn fras pa ganran o'ch lefel capasiti arferol ydych chi'n gweithredu ar hyn o bryd?

- Ar agor ar capasiti llawn ❑
- 90 – 99% ❑
- 80 – 89% ❑
- 70 – 79% ❑
- 60 – 69% ❑
- 50 – 59% ❑
- 40 – 49% ❑
- 30 – 39% ❑
- 20 – 29% ❑
- 10 – 19% ❑
- Llai na 10% ❑

Q4 Faint o staff parhaol â thâl y mae eich busnes yn eu cyflogi ar hyn o bryd, ac eithrio'r perchnogion?

- Dim ❑
- 1 ❑
- 2 ❑
- 3 ❑
- 4 ❑
- 5 ❑
- 6 i 10 ❑
- 11 i 50 ❑
- 51 i 100 ❑
- 101 i 250 ❑
- Mwy na 250 ❑

Q5 *Os yn cyflogi staff*

Pa effeithiau y mae Covid-19 wedi'u profi ar eich busnes o ran staff ers dechrau'r achosion?

*Ticiwch bopeth sy'n berthnasol*

- Wedi gorfod rhoi staff ar ffyrlo ❑
- Wedi gorfod lleihau oriau staff ❑
- Heb gyflogi / wedi cyflogi llai o weithwyr tymhorol ❑
- Wedi gorfod diswyddo ❑
- Wedi cyhoeddi rhybudd o ddiswyddiad i staff neu'n bwriadu diswyddo staff yn dilyn cyfnod ymgynghori ❑
- Rhagweld y bydd yn rhaid diswyddo staff yn y dyfodol ❑
- Dim effaith ❑
- Effaith arall ❑

Faint o bobl sydd gennych chi ar ffyrlo ar hyn o bryd? ____________

(Arall) Nodwch effaith arall ____________

Q6 *Os wedi lleihau oriau*

Faint o'r mathau canlynol o staff ydych chi wedi gorfod lleihau oriau?

Staff parhaol llawn amser ____________

Staff parhaol rhan amser ____________

Q7 *Os wedi diswyddo*

Faint o'r mathau canlynol o staff ydych chi wedi gorfod eu diswyddo?

Staff parhaol llawn amser ____________

Staff parhaol rhan amser ____________

Q8 O ystyried y diswyddiadau rydych chi wedi'u gwneud, beth yw'r gwahaniaeth bras y mae hyn yn ei wneud i'ch costau staff misol?

Swm misol wedi'i arbed ____________

Q9 *Os diswyddiadau rhan amser*

Beth yw'r cyfwerth ag amser llawn y diswyddiadau rydych chi wedi'u gwneud i staff rhan amser?

*E.e. Byddai 2 berson a oedd yn gweithio 50% o oriau llawn amser yn hafal i 1 person cyfwerth ag amser llawn*

Nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn ________________

Q10 *Os rhoddir rhybudd o ddiswyddiad iddo staff neu os mewn ymgynghoriad diswyddo gyda'r staff*

Faint o staff sydd wedi cael rhybudd o ddiswyddo neu a ydych chi'n bwriadu diswyddo?

Staff parhaol llawn amser ________________
Staff parhaol rhan amser ________________

Q11 O ystyried y diswyddiadau rydych chi'n eu cynllunio, beth yw'r gwahaniaeth bras y mae hyn yn ei wneud i'ch costau staff misol?

Swm misol i'w arbed **(£)** ________________

Q12 *Os cynlluniwyd diswyddiadau rhan amser*

Beth yw'r cyfwerth ag amser llawn y diswyddiadau rydych chi wedi'u cynllunio i staff rhan amser?

*E.e. Byddai 2 berson a oedd yn gweithio 50% o oriau llawn amser yn hafal i 1 person cyfwerth ag amser llawn*

Nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn ________________

Q13 Ym mha fis ydych chi'n disgwyl y gallai diswyddiadau ddigwydd?

- Medi ❑
- Hydref ❑
- Yn hwyrach na mis Hydref ❑
- Ddim yn gwybod ❑
- Well gen i beidio a dweud ❑

Q14 *Os disgwylir diswyddiadau yn y dyfodol*

Faint o'r mathau canlynol o staff ydych chi'n rhagweld y bydd angen eu diswyddo yn y dyfodol?

Staff parhaol llawn amser ________________
Staff parhaol rhan amser ________________

Q15 Ym mha fis ydych chi'n disgwyl y gallai diswyddiadau ddigwydd?

- Medi ❑
- Hydref ❑
- Tachwedd ❑
- Rhagfyr ❑
- Yn hwyrach na mis Rhagfyr ❑
- Ddim yn gwybod ❑
- Well gen i beidio a dweud ❑

Q16 A fyddai ots gennych roi syniad inni o faint o incwm y mae eich busnes wedi'i golli hyd yn hyn oherwydd argyfwng Covid-19?

- Heb golli unrhyw incwm ❑
- Hyd at £1,000 ❑
- £1,001 - £2,500 ❑
- £2,501 - £5,000 ❑
- £5,001 - £10,000 ❑
- £10,001 - £25,000 ❑
- £25,001 - £50,000 ❑
- £50,001 - £100,000 ❑
- £100,001 - £250,000 ❑
- £250,001 - £500,000 ❑
- £500,001 - £1,000,000 ❑
- Mwy na £1,000,000 ❑
- Ddim yn gwybod ❑

Q17 Ac yn fras pa gyfran o'ch refeniw blynyddol arferol y mae'r golled honno'n ei gynrychioli hyd yn hyn?

- 2% neu lai ❑
- 3 - 5% ❑
- 6 - 10% ❑
- 11 - 15% ❑
- 16 - 20% ❑
- 21 - 30% ❑
- 31 - 40% ❑
- 41 - 50% ❑
- 51 - 60% ❑
- 61 - 70% ❑
- 71 - 80% ❑
- Dros 80% ❑
- Ddim yn gwybod ❑

Q18 *Os yw agor ar hyn o bryd*

O'r pwynt pan oeddech chi'n gallu agor eich busnes ar ol y cyfyngiadau coronafeirws, faint o gwsmeriaid ydych chi wedi'u cael o gymharu a'r lefelau y byddech chi'n eu disgwyl fel arfer dros y cyfnod hwn?

- Mwy na'r arfer ❑
- Yr un peth ag arfer ❑
- Llai na'r arfer ❑

Q19 *Os yw'n agor neu a fydd yn ailagor yn 2020*

Faint o archebion sydd gennych chi ar gyfer mis Hydref a mis Tachwedd o gymharu a'r arferol ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn?

- Mwy na'r arfer ❑
- Yr un peth ag arfer ❑
- Llai na'r arfer ❑
- Nid ydym yn cymryd archebion ❑

Q20 *Os yw'n fwy na'r arfer*

Faint mwy o archebion sydd gennych o gymharu ag arferol?

- Hyd at 10% yn fwy ❑
- 11 i 25% yn fwy ❑
- 26 i 50% yn fwy ❑
- Dros 50% yn fwy ❑

Q21 *Os yw'n llai na'r arfer*

Faint llai o archebion sydd gennych chi o'u cymharu a'r arferol?

- Hyd at 10% yn llai ❑
- 11 i 25% yn llai ❑
- 26 i 50% yn llai ❑
- 50 i 75% yn llai ❑
- Dros 75% yn llai ❑

Q22 *Os yw'n agored neu a fydd yn ailagor yn 2020*

Pa lefel o archebion sydd wedi'u canslo, naill ai gennych chi neu'ch cwsmeriaid, ydych chi'n eu profi ar hyn o bryd?

*Annog os oes angen*

- Lefel uchel o archebion sydd wedi'u canslo ❑
- Lefel gymedrol o archebion sydd wedi'u canslo ❑
- Lefel isel o archebion sydd wedi'u canslo ❑
- Dim archebion sydd wedi'u canslo ❑
- Ddim yn cymryd archebion ❑

Q23 *Os mae lefel uchel neu gymedrol o archebion sydd wedi'u canslo*

Beth yw'r prif resymau pam mae archebion yn cael eu canslo?

*Paid a annog, ticiwch bopeth sy'n berthnasol*

- Mesurau cloi lleol ❑
- Rheol '6 pherson' ❑
- Cwsmeriaid ddim yn gallu ddod o hyd i lety ❑
- Datblygu symptomau Covid ❑
- Ofn o ddal y feirws / dal yn gwarchod ❑
- Rhai mathau o grwp na chaniateir eto / ymarferol eto ❑
- Tywydd ❑
- Cwsmeriaid yn cael eu digalonni gan ddiffyg cyfleusterau agored ❑
- Ddim yn gallu fforddio'r daith mwyach ❑
- Ymwelwyr tramor yn methu a chyrraedd yma ❑
- Cwsmeriaid ddim yn rhoi rheswm ❑
- Arall ❑

Nodwch reswm(au) arall ________________

Q24 Sawl mis arall ydych chi'n meddwl y gall eich busnes oroesi?

- Llai nag 1 mis ❑
- 1 mis ❑
- 2 mis ❑
- 3 mis ❑
- 4 mis ❑
- 5 mis ❑
- 6 mis ❑
- Mwy na 6 mis ❑
- Mae'r cyfan yn dibynnu ar rai ffactorau ❑
- Ddim yn gwybod ❑

Q25 *Os 6 mis neu lai, neu mae'n dibynnu*

Faint o gyllid ychwanegol ydych chi'n meddwl sydd angen i'ch busnes ddod o hyd iddo er mwyn goroesi'r chwe mis nesaf?

- Ddim yn angen unrhyw beth ❑
- Hyd at £2,000 ❑
- £2,001 i £5,000 ❑
- £5,001 i £10,000 ❑
- £10,001 i £25,000 ❑
- £25,001 i £50,000 ❑
- £50,001 i £100,000 ❑
- £100,001 i £250,000 ❑
- £250,001 i £500,000 ❑
- £500,001 i 1 miliwn ❑
- £1 i 2.5 miliwn ❑
- £2.5 i 5 miliwn ❑
- Dros £5 miliwn ❑
- Ddim yn gwybod / gwrthod ateb ❑

Q26 *Os nodwyd unrhyw swm uchod*

Ac yn fras faint o hynny ydych chi'n meddwl y gall eich busnes ei godi trwy ffynonellau ar wahan i grantiau'r llywodraeth, e.e. trwy fanciau, cyllid personol ac ati?

- Y cyfan ❑
- 75 i 99% ❑
- 50 i 74% ❑
- 25 i 49% ❑
- 1 i 24% ❑
- Dim ohono ❑
- Ddim yn gwybod ❑

Q27 Pa un o'r cyngor neu'r cymorth ymgynghori posibl canlynol y byddai'ch busnes yn elwa fwyaf ohono?

*Cyfwelydd: darllenwch allan a gofynnwch iddynt raddio hyd at dri yn nhrefn eu pwysigrwydd trwy deipio '1' ar gyfer y pwysicaf, yna '2', '3'. Gadewch opsiynau eraill yn wag.*

| | |
|---|---|
| Marchnata | ________________ |
| Archebion ar-lein / presenoldeb ar-lein | ________________ |
| Canllawiau arfer gorau COVID | ________________ |
| Addasiad busnes neu gyfleoedd busnes yn y dyfodol | ________________ |
| Cyngor ymgynghorol wedi'i deilwra ar gyfer eich busnes | ________________ |